Partneriaeth Sgiliau Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region Skills Partnership

# CYFLEOEDD A HERIAU'R SECTOR – DIWEDDARU CYNLLUN CYFLOGAETH A SGILIAU (2025)





@CCR_RSP

RegionalSkillsPartnership@newport.gov.uk

www ccrsp.co.uk

## Rhagair



Croeso i'r adran Cyfleoedd a Heriau'r Sector wedi'i diweddaru yng Nghynllun Cyflogaeth a Sgiliau Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC). Mae'r diweddariad hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i gyflawni "Ffyniant trwy Bartneriaeth" trwy alinio ein blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol ag anghenion esblygol cyflogwyr, dysgwyr a chymunedau ledled De-ddwyrain Cymru.

Fel rhan o'n contract esblygol gyda Llywodraeth Cymru, gofynnwyd i PSPRC roi mwy o bwyslais ar yr agenda werdd—sydd bellach yn cynrychioli 50% o'n ffocws strategol. Mewn ymateb, rydym wedi cynnal adolygiad targedig o'n sectorau â blaenoriaeth i sicrhau bod sgiliau gwyrdd wedi'u hymgorffori ym mhob maes o'r economi ranbarthol. Mae'r gwelliant hwn yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yn ein Cynllun ar gyfer 2022-2025 ac yn cryfhau ein gallu i ddylanwadu ar gynllunio a chyllido addysg ôl-16 yn y dyfodol.



Rydym yn parhau i fod yn ddiolchgar i'n haelodau bwrdd, cyfranogwyr grŵp sector a rhanddeiliaid, y mae eu dealltwriaeth yn parhau i lywio ein gwaith. Gyda'n gilydd, rydym yn datblygu gweithlu gwydn, cynhwysol a pharod i'r dyfodol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

## Crynodeb Gweithredol

Mae Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC) yn rhyngwyneb strategol rhwng cyflogwyr, darparwyr addysg a Llywodraeth Cymru. Trwy ddefnyddio gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur ac ymgysylltu â'r sector, mae PSPRC yn nodi anghenion sgiliau presennol ac yn y dyfodol ac yn llywio'r gwaith o ddatblygu system sgiliau gynaliadwy sy'n seiliedig ar y galw.

Mae'r adran Cyfleoedd a Heriau'r Sector hon sydd wedi'i diweddaru yn ymateb i'r pwyslais cynyddol gan Lywodraeth Cymru ar sgiliau gwyrdd a'r newid i economi carbon isel.
Mae'n gwella'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau presennol drwy:

- Adolygu a diweddaru cyfleoedd a heriau sector-benodol.
- Ymgorffori ystyriaethau sgiliau gwyrdd ar draws pob sector blaenoriaeth.
- Gwella eglurder a pherthnasedd i gefnogi ymgysylltiad cryfach â Llywodraeth Cymru.

Dyma'r sectorau â blaenoriaeth o hyd:

- *Gweithgynhyrchu a Deunyddiau Uwch*
- *Lled-ddargludyddion Cyfansawdd*
- *Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig*
- *Creadigol*
- *Technoleg Ariannol*
- *Yr Economi Sylfaenol Ddynol (Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a'r Gwasanaethau Brys a Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth)*

Mae pob dadansoddiad sector yn tynnu sylw at feysydd twf allweddol, bylchau sgiliau a heriau strategol, gyda ffocws o'r newydd ar gynaliadwyedd, trawsnewid digidol a thwf cynhwysol. Mae themâu trawsbynciol fel Sgiliau Sero Net, Ymgysylltiad Cyflogwyr ac Addysg Gyrfaoedd yn parhau i fod yn sail i'n dull gweithredu. Mae'r diweddariad hwn yn sicrhau bod PSPRC yn parhau i fod yn ystwyth ac yn ymatebol i flaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Diwydiannol ac Economaidd P-RC a strategaeth Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach Llywodraeth Cymru.



## Cyflwyniad

Mae Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC) yn parhau i gyflawni ei chenhadaeth i nodi ac ymateb i anghenion cymdeithasol, economaidd a sgiliau esblygol y rhanbarth. Mae'r dadansoddiad sector hwn wedi'i adnewyddu yn adeiladu ar Gynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2022–2025, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Chynllun Diwydiannol ac Economaidd P-RC.



# DEUNYDDIAU A GWEITHGYNHYRCHU UWCH

## CYNLLUN 2022-2025

- Hyrwyddo prentisiaethau a gweithio i sicrhau bod fframweithiau'n addas i'r diben ac yn unol â'r safonau prentisiaethau yn Lloegr.
- Cefnogi gweithrediad adolygiad sector Cymwysterau Cymru ar gyfer peirianneg, gweithgynhyrchu uwch ac ynni a manteisio'n llawn ar gyfleoedd i sicrhau bod y datblygiadau'n diwallu anghenion y diwydiant.
- Cefnogi darparwyr hyfforddiant i recriwtio a hyfforddi aseswyr ar gyfer prentisiaethau lefel 4.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cefnogaeth a ariennir ar gyfer hyfforddiant wedi'i halinio ag anghenion y sector gan gynnwys hyfforddiant pwrpasol ar gyfer gweithredu technoleg newydd fel awtomeiddio, roboteg a sgiliau digidol cysylltiedig.
- Manteisio ar gyfleoedd sy'n codi drwy agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Parhau i fod yn ymwybodol o effaith COVID/Brexit a gweithio i sicrhau bod modd defnyddio sgiliau gweithwyr sydd wedi'u dadleoli (o bosibl drwy gau gweithfeydd) mewn is-sectorau sy'n wynebu heriau recriwtio.
- Adeiladu ar ddulliau gweithredu mewn perthynas ag addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd a hyrwyddo'r sector fel opsiwn gyrfa realistig.
- Mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag anghydbwysedd rhwng y rhywiau a pharhau i gynyddu nifer y merched sy'n dod i mewn i'r farchnad lafur.
- Gwella cynnwys hyfforddiant athrawon sy'n canolbwyntio ar STEM a gweithio i gyflwyno lleoliadau profiad gwaith addas at y diben mewn diwydiant i sbarduno cydraddoldeb.

## DIWEDDARIAD MIS TACHWEDD 2025

- **Hyrwyddo Prentisiaethau ar draws Sawl Lefel a Sicrhau bod Fframweithiau'n Adlewyrchu Sgiliau Gwyrdd a Chynaliadwyedd**
- Ehangu cefnogaeth ar gyfer fframweithiau prentisiaethau (ar gyfer allbynnau Lefel 2, 3, 4 a 6) gan sicrhau eu bod yn ymgorffori sgiliau gwyrdd ac arferion cynaliadwy.
- **Cefnogi'r gwaith o Weithredu Adolygiad Sector Cymwysterau Cymru gyda phwyslais cryf ar dechnolegau gwyrdd**
- Annog mabwysiadu cymwysterau wedi'u diweddaru mewn peirianneg, gweithgynhyrchu uwch ac ynni sy'n adlewyrchu technolegau gwyrdd sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni a phrosesau gweithgynhyrchu cynaliadwy, gan sicrhau bod datblygiadau'n cael eu harwain gan y diwydiant ac yn flaengar.

- **Gwella Gallu Darparwyr Hyfforddiant i Recriwtio a Hyfforddi Aseswyr ar draws Lefelau, gan Ymgorffori Sgiliau**
- **Gwyrdd**
  Cefnogi darparwyr hyfforddiant i recriwtio a datblygu aseswyr prentisiaethau (ar gyfer allbynnau Lefel 2, 3,4 a 6) gyda ffocws ar asesu cymwyseddau wedi'u hymgorffori mewn cynaliadwyedd, technolegau gwyrdd ac arferion sy'n gyfrifol yn amgylcheddol.
- **Cydweithio â Llywodraeth Cymru i Alinio Hyfforddiant a Ariennir ag Anghenion y Sector ac Arloesedd Gwyrdd**
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid yn cefnogi hyfforddiant prentisiaeth pwrpasol ac wedi'i ymgorffori, gan fynd i'r afael â thechnolegau gwyrdd newydd ac sy'n dod i'r amlwg—megis awtomeiddio, roboteg, sgiliau digidol—ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd bob tro wrth ddarparu hyfforddiant a dylunio cwricwlwm.
- **Manteisio i'r eithaf ar fentrau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Du i Ddatblygu Sgiliau Gwyrdd yn Gynt**
- Manteisio ar ffrydiau cyllido'r llywodraeth i annog hyfforddiant sgiliau gwyrdd a datblygu economaidd cynaliadwy o fewn y sector, gan feithrin twf rhanbarthol a chenedlaethol a helpu i leihau effeithiau amgylcheddol.

- **Mynd i'r Afael â Gweithlu sydd wedi'i Ddadleoli gyda Ffocws ar Uwchsgilio ac Adleoli i Sectorau Gwyrdd**
- Cydnabod effeithiau parhaus COVID, Brexit a Thargedau Datgarboneiddio ar weithwyr sydd wedi'u dadleoli—o bosibl yn sgil cau gweithfeydd—trwy fentrau ailsgilio gwyrdd sy'n eu galluogi i drosglwyddo i is-sectorau a rolau cynaliadwy sydd ag angen o ran recriwtio.

- **Ymgorffori Cynaliadwyedd mewn Addysg Gyrfaoedd a Hyrwyddo'r Sector fel Llwybr Gyrfa Gwyrdd**
- Adeiladu ar fframweithiau addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd (AGCAG) presennol i dynnu sylw at gynaliadwyedd fel elfen graidd o ddyfodol y sector. Hyrwyddo'r sector yn weithredol fel opsiwn gyrfa hyfyw, sy'n addas i'r dyfodol i'r rhai sydd â diddordeb mewn sgiliau a thechnolegau gwyrdd.

- **Mynd i'r Afael â'r Anghydbwysedd rhwng y Rhywiau a Grwpiau Heb Gynrychiolaeth Ddigonol gyda Mentrau wedi'u Targedu sy'n Annog Cyfranogiad mewn Rolau Gwyrdd a STEM.**
- Parhau gyda'r ymdrechion i fynd i'r afael â gwahaniaethau rhwng y rhywiau, gyda ffocws penodol ar gynyddu cyfranogiad menywod mewn STEM a rolau gwyrdd o fewn y sector, yn ogystal â hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth i bob grŵp fel conglfaen wrth ddatblygu gweithlu cynaliadwy

- **Gwella Hyfforddiant Athrawon STEM a Meithrin Profiad Gwaith Strwythuredig gyda Ffocws Gwyrdd**
- Gwella cynnwys rhaglenni hyfforddi athrawon sy'n canolbwyntio ar STEM i gynnwys cynaliadwyedd a thechnolegau gwyrdd.
- **Datblygu Fframweithiau Prentisiaethau Clir sy'n ei gwneud hi'n haws i gyflogwyr gynnig lleoliadau profiad gwaith Strwythuredig ac Ystyrlon sy'n cyd-fynd â Sgiliau Gwyrdd ac anghenion y Diwydiant.**

- **Annog Mabwysiadu Arferion Gwyrdd ar draws Pob Rôl, gan Ymgorffori Cynaliadwyedd ym mhob rhan o'r Sector**
- Hyrwyddo integreiddio arferion amgylcheddol cynaliadwy ar draws pob proffil o fewn y sector—nid yn unig mewn swyddi gwyrdd—fel bod cynaliadwyedd yn dod yn rhan sylfaenol o weithrediadau, diwylliant a datblygu sgiliau bob dydd.



# LLED-DDARGLUDYDDION CYFANSAWDD

## CYNLLUN 2022-2025

- Parhau i ddatblygu cymwysterau addas at y diben mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i helpu i fynd i'r afael â phrinder sgiliau.
- Gweithio i sicrhau bod fframweithiau prentisiaethau (gan gynnwys gradd-brentisiaethau) yn adlewyrchu anghenion y sector a chefnogi prosesau darparu.
- Hyrwyddo perthynas strategol rhwng y sector a deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch (gan gynnwys fferyllol, modurol a hedfan) i gefnogi newid gyrfa a/neu ddatblygu.
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu gweithgareddau DPP CS Connected a chynllun gwaith cysylltiedig.
- Adeiladu ar ddulliau gweithredu mewn perthynas ag addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd i hyrwyddo'r sector fel opsiwn gyrfa realistig.
- Cefnogi datblygiad gweithlu cynhwysol a chynyddu nifer y merched sy'n dod i mewn i'r farchnad lafur.
- Gweithio mewn partneriaeth i ymchwilio i fylchau a phrinder sgiliau a datblygu dulliau arloesol a chydweithredol i fynd i'r afael â heriau a nodwyd.
- Cydweithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i sicrhau bod cefnogaeth ariannol ar gyfer hyfforddiant yn alinio ag anghenion y sector.

## DIWEDDARIAD MIS TACHWEDD 2025

- Parhau i ddatblygu cymwysterau addas i'r diben mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i helpu i fynd i'r afael â phrinder sgiliau ac adeiladu ar ddulliau gweithredu mewn perthynas ag addysg gyrfaoedd, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i hyrwyddo'r sector fel opsiwn gyrfa cynaliadwy.
- Datblygu fframweithiau prentisiaethau (gan gynnwys gradd-brentisiaethau) sy'n adlewyrchu anghenion y sector, cefnogi prosesau cyflawni ac annog modiwlau cynaliadwyedd drwy gydweithio â chyrff dyfarnu i sicrhau bod cymwyseddau gwyrdd yn rhan o'r cwricwlwm.
- Annog perthnasoedd strategol rhwng y sector a deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch (gan gynnwys cynhyrchion fferyllol, modurol a hedfan) i alluogi symudedd rhwng gyrfaoedd trwy gefnogi fframweithiau i gydnabod dysgu blaenorol a sgiliau trosglwyddadwy.
- Parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweithgareddau DPP CS Connected a'r cynllun gwaith cysylltiedig trwy annog ehangu cyfleoedd DPP mewn arweinyddiaeth werdd, llythrennedd carbon, arloesi cynaliadwy a sgiliau gwyrdd traws-sector.
- Symud ymdrechion i fynd i'r afael â gwahaniaethau rhwng y rhywiau, gyda ffocws penodol ar gynyddu cyfranogiad menywod mewn STEM o fewn y sector, yn ogystal â hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth i bob grŵp i dynnu sylw at y diwydiant fel gyrfa hyfyw trwy arddangos yr amrywiaeth o rolau sydd ar gael.
- Gweithio mewn partneriaeth i ymchwilio i fylchau a phrinder sgiliau a datblygu dulliau arloesol a chydweithredol i fynd i'r afael â heriau a nodwyd. Hyrwyddo'r sector yn weithredol fel opsiwn gyrfa sy'n addas i'r dyfodol i'r rhai sydd â diddordeb mewn sgiliau gwyrdd, arloesi a thechnolegau trwy gefnogi uwchsgilio ac ailsgilio.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i sicrhau bod cymorth a ariennir wedi'i alinio ag anghenion y sector ac yn mynd i'r afael â thechnolegau gwyrdd newydd ac sy'n dod i'r amlwg—megis awtomeiddio, roboteg, sgiliau digidol—ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd bob tro wrth ddarparu hyfforddiant a dylunio cwricwlwm.



# ADEILADU A'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG

## CYNLLUN 2022-2025

- Cefnogi gweithrediad cymwysterau newydd a gweithio i sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r dirwedd newidiol.
- Datblygu llwybrau dilyniant clir ar gyfer dysgwyr mewn perthynas ag adeiladu.
- Archwilio'r potensial i ddatblygu rhaglenni dylunio digidol ac adeiladu ymhellach.
- Archwilio cyfleoedd i ddatblygu cymwysterau i gefnogi gwaith oddi ar y safle ac ôl-osod.
- Adeiladu ar ddulliau gweithredu mewn perthynas ag addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd a hyrwyddo'r sector fel opsiwn gyrfa realistig.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu hyfforddiant i fynd i'r afael ag agendâu cynaliadwyedd a datgarboneiddio.
- Mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag anghydbwysedd rhwng y rhywiau a chynyddu nifer y menywod sy'n dod i mewn i'r sector.
- Parhau i fod yn ymwybodol o effaith Brexit a chyflwyno mesurau i leihau effaith allfudo ar y farchnad lafur.
- Hyrwyddo'r posibiliad o gyflwyno piblinell strategol o brosiectau seilwaith i gynnwys asesiadau effaith sgiliau.
- Dylanwadu ar ddosbarthiadau galwedigaethol safonol i gydnabod llwybrau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

## DIWEDDARIAD MIS TACHWEDD 2025

- Cefnogi cymwysterau newydd a sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r dirwedd sgiliau sy'n esblygu yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, gan bwysleisio integreiddio sgiliau gwyrdd a digidol o fewn rolau presennol yn hytrach na chreu "swyddi gwyrdd" hollol newydd.
- Datblygu llwybrau cynnydd clir ac amrywiol ar gyfer dysgwyr sy'n gysylltiedig ag adeiladu, gan ehangu'r ystod o ddarparwyr a phynciau gradd-brentisiaeth, ac ymgorffori llwybrau sy'n adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol cynaliadwyedd, ôl-osod ac adeiladu oddi ar y safle.
- Annog datblygiad rhaglenni dylunio ac adeiladu digidol, gan gynnwys llwybrau prentisiaethau, gan sicrhau bod y rhain yn ymgorffori'r elfennau digidol a deallusrwydd artiffisial sy'n hanfodol i arferion adeiladu a chynaliadwyedd modern.
- Gwella'r gwaith o ddatblygu a chyflenwi cymwysterau i gefnogi sgiliau adeiladu oddi ar y safle, ôl-osod a chynaliadwyedd, gyda ffocws ar ymgorffori elfennau gwyrdd mewn rolau traddodiadol, gan eu gwneud yn fwy perthnasol i anghenion y dyfodol.
- Cryfhau addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd trwy ysbrydoli ysgolion a busnesau i ymgysylltu'n fwy effeithiol a hyrwyddo'r sector fel opsiwn gyrfa hyfyw a gwerth chweil sy'n integreiddio cynaliadwyedd ac arloesedd digidol.
- Cefnogi datblygiad a chyflenwi hyfforddiant a chymwysterau i fynd i'r afael ag agendâu cynaliadwyedd, datgarboneiddio, a sgiliau gwyrdd, gan sicrhau bod yr elfennau hyn wedi'u hymgorffori mewn rolau traddodiadol a'u cyfleu'n glir i ddysgwyr a chyflogwyr.
- Hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth drwy fynd i'r afael ag anghydbwysedd rhwng y rhywiau, cynyddu cyfranogiad menywod gyda chymorth priodol fel CDP sy'n benodol i fenywod a threfniadau gweithio hyblyg, ac ymestyn cefnogaeth i'r rhai ag anableddau, o gefndiroedd lleiafrifol a chefndiroedd difreintiedig, a hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector.
- Cydnabod a gweithredu ar heriau'r farchnad lafur, gan gynnwys effaith Brexit a mudo allanol, drwy gyflwyno mesurau i gadw a denu talent i'r sector.
- Hyrwyddo sefydlu piblinell strategol o brosiectau seilwaith sy'n cynnwys asesiadau cynhwysfawr ar yr effaith ar sgiliau, a sicrhau y gweithredir yn gydgysylltiedig i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn sgiliau a nodwyd.
- Dylanwadu ar Ddosbarthiadau Galwedigaethol Safonol i gydnabod rolau newydd ac sy'n dod i'r amlwg sy'n adlewyrchu gofynion sgiliau sy'n esblygu, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd, arloesedd digidol ac adeiladu oddi ar y safle.



# CREADIGOL

## CYNLLUN 2022-2025

- Parhau i ddatblygu strategaeth sgiliau gydlynol ar gyfer y sector creadigol, gan sicrhau ymgysylltiad â chynyrchiadau llai i nodi eu heriau sgiliau, a pharhau'n ymwybodol o'r twf yn y diwydiannau gêmio a cherddoriaeth.
- Archwilio potensial rhaglen cysgodi gwaith sy'n benodol i'r sector creadigol ledled Cymru i sicrhau dull cydgysylltiedig mewn perthynas â phrofiad gwaith a lleoliadau hyfforddeion, gan gefnogi gwell hygyrchedd i'r sector ar gyfer newydd-ddyfodiaid.
- Ehangu ystod a hyblygrwydd cyfnodau dysgu byr a hyfforddiant DPP sydd ar gael i'r gweithlu creadigol drwy fentrau fel y rhaglen Cyfrif Dysgu Personol (CDP), cynllun prentisiaethau a rennir a datblygu academïau sgiliau.
- Cynyddu'r defnydd o wybodaeth am y farchnad lafur i nodi bylchau sgiliau, prinder sgiliau a thueddiadau recriwtio ar draws y sector creadigol, a llywio'r gwaith o ddarparu darpariaeth hyfforddiant ôl-16.
- Datblygu cysylltiadau cryfach gyda Cymru Greadigol i wella ymatebolrwydd y sector a'i ddiogelu at y dyfodol mewn perthynas â'r posibilrwydd y bydd cynyrchiadau teledu a ffilm blaenllaw'n ffilmio yn y rhanbarth.
- Ymchwilio ymhellach i'r anghenion sgiliau a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar gyfer cynyrchiadau rhithwir ac integreiddio sgiliau o'r diwydiant gêmio i gefnogi diwydiannau eraill yn y sector creadigol.
- Gwella cydweithio o fewn y sector drwy amserlen gydlynol a ddiweddérir yn rheolaidd o gynyrchiadau sy'n cael eu ffilmio ar draws y rhanbarth ac sydd ar y gweill, i gynllunio ar gyfer bylchau sgiliau posibl a phrinder llafur (e.e. criw cynhyrchu).
- Mapio sgiliau trosglwyddadwy gweithlu creadigol y rhanbarth i sicrhau cynaliadwyedd gyrfaoedd o fewn y sector a lleihau'r dalent sy'n cael ei cholli o'r sector neu i ranbarthau eraill.

## DIWEDDARIAD MIS TACHWEDD 2025

**Datblygu Strategaeth Sgiliau Cydlynol ar gyfer y Sector Creadigol**
- Datblygu strategaeth sgiliau unedig sy'n diwallu anghenion microfusnesau, gweithwyr llawrydd a chynyrchiadau bach.
- Ymgorffori sgiliau gwyrdd fel cynhyrchu cynaliadwy a llifoedd gwaith carbon isel.
- Gwella mynediad at hyfforddiant i bob cymuned.
- Monitro twf mewn gêmio a cherddoriaeth i gefnogi llwybrau gyrfa digidol a charbon isel sy'n dod i'r amlwg.

**Archwilio Rhaglen Cysgodi Gwaith y Sector Creadigol Ledled Cymru**
- Creu rhaglen profiad gwaith a hyfforddeion cydgysylltiedig.
- Blaenoriaethu mynediad i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a difreintiedig.
- Alinio lleoliadau ag arferion cynaliadwy, gan gynnwys cyllidebu carbon, dylunio setiau cynaliadwy, a chynyrchiadau rhithwir.

**Ehangu Mynediad at Ddysgu a Hyfforddiant DPP**
- Ehangu opsiynau DPP hyblyg a chyrsiau byr trwy CDP, Prentisiaethau a Rennir ac Academïau Sgiliau.
- Ymgorffori modiwlau dysgu gwyrdd fel llythrennedd carbon.
- Sicrhau bod fformatau hyfforddi yn hygyrch i ddysgwyr niwroamrywiol, anabl ac ynysig yn ddaearyddol.

**Cynyddu'r Defnydd o Wybodaeth am y Farchnad Lafur (GFL)**
- Defnyddio GFL i nodi swyddi gwyrdd sy'n dod i'r amlwg a bylchau mewn cyfranogiad o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Cymhwyso mewnwelediadau i ffurfio darpariaeth hyfforddiant ôl-16 teg ac ymatebol.

**Cryfhau Cysylltiadau â Cymru Greadigol**
- Cydweithio i baratoi'r rhanbarth ar gyfer cynhyrchu rhaglenni teledu a ffilmiau blaenllaw.
- Alinio â safonau sero-net ac arferion recriwtio cynhwysol.
- Cyd-ddatblygu safonau'r diwydiant a chynllunio'r gweithlu mewn modd strategol.

**Ymchwilio i Gynyrchiadau Rhithwir ac Integreiddio Sgiliau Traws-Sector**
- Ymchwilio i anghenion sgiliau lle mae cynyrchiadau rhithwir a gêmio yn gorgyffwrdd.
- Cefnogi llifoedd gwaith cynhyrchu cynaliadwy, digidol yn gyntaf.
- Sicrhau hyfforddiant hygyrch sy'n lleihau effaith amgylcheddol.

**Cydlynu a Chynnal Amserlen Gynhyrchu Ranbarthol**
- Cynnal amserlen gyfredol o gynyrchiadau rhanbarthol.
- Defnyddio'r data hwn i gynllunio anghenion llafur a mynd i'r afael â bylchau sgiliau.
- Olrhain defnydd o arferion gwyrdd a recriwtio cynhwysol.
- Cefnogi rhannu seilwaith cynaliadwy a lleihau dyblygu.

**Mapio Sgiliau Trosglwyddadwy ar draws y Gweithlu Creadigol**
- Nodi ac olrhain sgiliau trosglwyddadwy i helpu pobl i gamu ymlaen yn eu gyrfa.
- Datblygu llwybrau i rolau creadigol gwyrdd fel saernïo cynaliadwy a dylunio mewn modd sy'n cynhyrchu cyn lleied o wastraff â phosibl.
- Cefnogi pontio cynhwysol ar gyfer gweithwyr heb gynrychiolaeth ddigonol neu sydd wedi'u dadleoli.

**Hyrwyddo Arloesedd Gwyrdd ar draws y Sector Creadigol**
- Annog dylunio, cynhyrchu, teithio a dulliau digidol cynaliadwy.
- Hyrwyddo offer olrhain carbon, prosesau gwastraff isel, a deunyddiau cyfrifol.
- Sicrhau bod cyllid arloesi yn hygyrch i sefydliadau amrywiol a chymunedol.

**Hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC)**
- Ymgorffori CAC fel rhan graidd o dwf y sector.
- Sicrhau prosesau recriwtio, hyfforddiant a dilyniant gyrfa teg.
- Cyd-ddylunio llwybrau gyda grwpiau llawr gwlad a grwpiau sydd â phrofiad byw.
- Darparu hyfforddiant sy'n gynhwysol o ran y ffordd y caiff ei gyflwyno, yr iaith a'r lleoliad.

**Cryfhau Cydweithredu ar draws Sefydliadau Cyflenwi**
- Gwella cydlynu gyda Screen Alliance Wales, Media Cymru, Film Cymru, ac eraill.
- Alinio cynllunio a hyfforddiant i leihau dyblygu.
- Rhannu GL ac arfer gorau ar draws y rhanbarth.
- Sicrhau bod partneriaethau yn cefnogi nodau gwyrdd a chynhwysol Cymru.

# TECHNOLEG ARIANNOL



## CYNLLUN 2022-2025

- Gwella piblinellau sgiliau a thalent ac adeiladu ar ddulliau gweithredu mewn perthynas ag addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd i hyrwyddo'r sector fel gyrfa realistig.
- Archwilio datblygiad posibl lleoliadau profiad gwaith o ansawdd mewn partneriaeth â chyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol.
- Datblygu ymhellach ddarpariaeth academïau a bŵt-camp a'i halinio ag anghenion y sector Technoleg Ariannol.
- Gweithio i sicrhau bod fframweithiau prentisiaethau'n adlewyrchu anghenion y sector ac archwilio cyfleoedd ymhellach drwy brentisiaethau a rennir a gradd-brentisiaethau.
- Cofleidio cyfleoedd ar gyfer cystadlaethau sgiliau Addysg Bellach ac archwilio ymgysylltiad posibl fel rhan o agenda WorldSkills UK.
- Gweithio gyda Sefydliadau Addysg Uwch rhanbarthol i ddatblygu darpariaeth addas at y diben a'i halinio'n well ag anghenion cyflogwyr Technoleg Ariannol.
- Cydweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cefnogaeth ariannol ar gyfer hyfforddiant yn alinio ag anghenion y sector.
- Manteisio ar gyfleoedd sy'n codi drwy agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG).

## DIWEDDARIAD MIS TACHWEDD 2025

- Gwella piblinellau sgiliau a thalent, ac adeiladu ar ddulliau gweithredu mewn perthynas ag addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd (AGCAG) i hyrwyddo'r sector fel gyrfa hyfyw a chynaliadwy, gyda llwybrau cynhwysol sy'n darparu mynediad i bawb sydd eisiau dilyn gyrfa yn y sector.
- Parhau i gydweithio â chyflogwyr a rhanddeiliaid i ddarparu gweithgareddau ymgysylltu yn y gweithle o ansawdd uchel a fydd yn arddangos yr ystod o rolau sydd ar gael, a thrwy hynny, yn hyrwyddo'r sector fel gyrfa hyfyw a chynaliadwy.
- Gweithio gyda darparwyr bŵt-camp i sicrhau ei fod yn cael ei arwain gan y sector ac yn ystyried egwyddorion gwyrdd a chynaliadwyedd.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu fframweithiau prentisiaethau sy'n cyd-fynd ag anghenion y sector ac archwilio cyfleoedd i ymgorffori cymwyseddau mewn arferion cynaliadwyedd ac amgylcheddol gyfrifol drwy weithio gyda'r rhanddeiliaid perthnasol.
- Ymgysylltu â'r ecosystem addysg ranbarthol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth sy'n addas at y diben, sy'n ystwyth, sy'n ymatebol i gyflogwyr lleol ac sy'n mynd i'r afael â thechnolegau newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg – megis deallusrwydd artiffisial, sgiliau data, digideiddio, cynaliadwyedd a sgiliau gwyrdd – o fewn eu cwricwlwm a darpariaeth hyfforddiant.
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyrsiau hyfforddi a ariennir yncefnogi gofynion y sector ac yn ystyried uwchsgilio, ailsgilio, llythrennedd gwyrdd a charbon, a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg.
- Croesawu cyfleoedd a gyflwynir drwy agendâu Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i hyrwyddo rôl y diwydiant mewn perthynas â lleihau carbon, llwyfannau gwyrdd ac atebion cynaliadwy.



# ESDd: ADDYSG, IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A GWASANAETHAU BRYS

## CYNLLUN 2022-2025

- Parhau i ddatblygu capasiti ar draws darparwyr hyfforddiant ôl-16 i fodloni gofynion asesu a sicrwydd ansawdd newydd ar gyfer fframweithiau prentisiaethau o fewn Iechyd, gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant ac archwilio cyfleoedd i addysgwyr weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr i gyd-ddarparu darpariaeth arbenigol.
- Codi proffil prentisiaethau a chyfleoedd lleoliad gwaith y sector iechyd, gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant a gwella'r gwaith o hyrwyddo'r sectorau hyn fel opsiwn gyrfa realistig gyda ffocws penodol ar ddenu newydd-ddyfodiaid drwy ymgyrchoedd wedi'u targedu at brinder sgiliau hysbys.
- Parhau i gefnogi mynediad at gyllid prentisiaethau pob-oedran ar gyfer y sector economi sylfaenol ddynol, gan ganolbwyntio'n benodol ar annog pobl ifanc a'r rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ymgymryd â phrentisiaethau.
- Datblygu rhaglenni prentisiaethau newydd lle ceir tystiolaeth o'r galw, megis gradd-brentisiaethau a phrentisiaethau lefel uwch i sicrhau bod llwybrau angenrheidiol i mewn i'r sector economi sylfaenol ddynol.
- Hyrwyddo'r sector addysg fel opsiwn gyrfa deniadol i sicrhau newid cadarnhaol a chynyddu nifer yr ymarferwyr addysg ar y gofrestr, gan ganolbwyntio ar recriwtio pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithlu presennol.
- Gwella symudolrwydd a natur drosglwyddadwy cymwysterau a chredydau rhwng sefydliadau addysgol, gan sicrhau bod dysgu a chyflawniadau blaenorol yn cael eu cydnabod.
- Codi ymwybyddiaeth o'r dulliau gweithredu arloesol mewn perthynas â chyfnodau dysgu byr a DPP ar gyfer gweithlu'r economi sylfaenol ddynol gydag ymgyrchoedd wedi'u targedu ac astudiaethau achos sy'n hyrwyddo llwybrau 'anhraddodiadol' i'r sector.
- Adeiladu ar ddulliau gweithredu sydd newydd eu datblygu o ran addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd sy'n mynd i'r afael â chanfyddiadau o'r sector a pharhau i hyrwyddo'r economi sylfaenol ddynol fel opsiwn gyrfa realistig.
- Ymgysylltu ag adolygiadau Cymwysterau Cymru o gymwysterau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg er mwyn sicrhau bod cymwysterau'n diwallu anghenion y diwydiant.
- Cefnogi'r galw cynyddol am sgiliau iaith Gymraeg ar draws y gweithlu addysg.

## DIWEDDARIAD MIS TACHWEDD 2025

- **Ehangu Capasiti ar draws Darparwyr Hyfforddiant Ôl-16 er mwyn Darparu Prentisiaethau o Safon**
- Datblygu capasiti darparwyr hyfforddiant ôl-16 i gyflwyno gofynion asesu a sicrhau ansawdd newydd ar gyfer fframweithiau prentisiaeth o fewn iechyd, gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant. Ymgorffori blaenoriaethau cynaliadwyedd a'r gallu i wrthsefyll newidiadau hinsawdd wrth ddylunio'r cwricwlwm ac asesiadau, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr i uwchsgilio staff presennol â sgiliau gwyrdd.
- **Codi Proffil Prentisiaethau a Lleoliadau Gwaith mewn Sectorau ESDd**
- Cynyddu gwelededd prentisiaethau a lleoliadau gwaith yn y sector iechyd, gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant, gan eu hyrwyddo fel opsiynau gyrfa hyfyw, hirdymor. Targedu ymgyrchoedd i dynnu sylw at sut y gall y rolau hyn gefnogi lles amgylcheddol (e.e. cymorth iechyd meddwl sy'n seiliedig ar natur) a denu unigolion sydd â diddordeb mewn gyrfaoedd gwyrdd neu gynaliadwyedd.
- **Cynnal a Gwella Mynediad at Gyllid Prentisiaethau Pob Oed ar gyfer ESDd**
- Parhau i gefnogi mynediad at gyllid prentisiaethau ar draws yr holl grwpiau oedran, gan ganolbwyntio ar gynyddu nifer y bobl ifanc a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n ymgymryd â phrentisiaethau. Cynnwys llwybrau i ofal gwyrdd, arferion addysg gynaliadwy, ac iechyd cyhoeddus amgylcheddol i ehangu apêl prentisiaethau.
- **Datblygu Llwybrau Prentisiaeth Newydd lle mae Galw**
- Creu rhaglenni prentisiaeth newydd mewn meysydd lle mae galw, gan gynnwys gradd-brentisiaethau a phrentisiaethau lefel uwch ar gyfer yr economi sylfaenol ddynol. Sicrhau bod llwybrau newydd yn ystyried yr angen sy'n dod i'r amlwg am sgiliau gwyrdd a sgiliau sy'n seiliedig ar natur - e.e. iechyd cyhoeddus amgylcheddol, y gallu i wrthsefyll llifogydd, dysgu yn yr awyr agored, a rheoli seilwaith cynaliadwy.
- **Hyrwyddo'r Sector Addysg fel Grym dros Newid Cadarnhaol**
- Hyrwyddo gyrfaoedd mewn addysg i gynyddu nifer yr ymarferwyr, yn enwedig o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol. Cefnogi rôl y sector wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac anghydraddoldeb cymdeithasol trwy ymgorffori addysg werdd, dysgu yn yr awyr agored, a mynediad at fyd natur mewn rolau addysgu a'r cwricwlwm.
- **Gwella Cludadwyedd a Throsglwyddadwyedd Cymwysterau ar draws Sefydliadau**
- Sicrhau y gellir cydnabod a throsglwyddo cymwysterau, credydau a chyflawniadau dysgu blaenorol yn hawdd rhwng darparwyr addysg. Ymgorffori cydnabyddiaeth o gymwysterau DPP gwyrdd ac amgylcheddol i hwyluso dilyniant gyrfa hyblyg i rolau sy'n ymwneud â natur.
- **Codi Ymwybyddiaeth o Gyfleoedd Dysgu Byr a DPP Arloesol**
- Hyrwyddo modelau dysgu arloesol a hyblyg gan gynnwys DPP a llwybrau anhraddodiadol i sectorau ESDd. Defnyddio'r modelau hyn i uwchsgilio ac ailsgilio'r gweithlu mewn sgiliau gwyrdd, arweinyddiaeth cynaliadwyedd ac ymarfer sy'n seiliedig ar natur - yn arbennig o berthnasol i gyflogwyr mawr y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.
- **Gwella Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd gyda Ffocws ar Rolau Gwyrdd**
- Parhau i wella addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd i fynd i'r afael â chanfyddiadau hen ffasiwn o sectorau ESDd. Defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur sy'n canolbwyntio ar y dyfodol i fodelu a hyrwyddo cyfleoedd gyrfa mewn rolau iechyd sy'n seiliedig ar natur, addysg a'r blynyddoedd cynnar gwyrdd, a gwydnwch amgylcheddol - gan gefnogi nodau economaidd a hinsawdd.
- **Ymgysylltu ag Adolygiadau Cymwysterau Cymru drwy Lens Werdd**
- Sicrhau bod adolygiadau Cymwysterau Cymru o gymwysterau presennol a chymwysterau sy'n dod i'r amlwg yn adlewyrchu anghenion esblygol y diwydiant. Cadw ffocws cryf ar gynaliadwyedd, llythrennedd hinsawdd a sgiliau gwyrdd wrth lunio'r cymwysterau a gynigir ar draws sectorau ESDd.
- **Cefnogi'r Galw Cynyddol am Sgiliau Cymraeg ar draws y Gweithlu**
- Parhau i fynd i'r afael â'r angen cynyddol am ddarpariaeth Gymraeg, yn enwedig ym maes addysg. Sicrhau bod hyfforddiant a chymwysterau sgiliau gwyrdd ar gael yn ddwyieithog i gefnogi cynhwysiant a hygyrchedd wrth drawsnewid i economi carbon isel sy'n gysylltiedig â natur.



# ESDd: LLETYGARWCH, MANWERTHU A THWRISTIAETH

## CYNLLUN 2022-2025

- Codi proffil prentisiaethau o fewn y sector lletygarwch a sicrhau bod fframweithiau coginio'n addas i'r diben er mwyn bodloni tueddiadau'r diwydiant yn y dyfodol.
- Gwella cyfleoedd profiad gwaith ar draws y sectorau lletygarwch, manwerthu a thwristiaeth i bobl ifanc mewn ymdrech i leihau'r prinder sgiliau presennol a chwalu canfyddiadau negyddol o yrfaoedd yn y sectorau hyn.
- Cynyddu'r defnydd o wybodaeth am y farchnad lafur i nodi bylchau sgiliau, prinder llafur a thueddiadau recriwtio ar draws y sectorau lletygarwch, manwerthu a thwristiaeth, a llywio'r gwaith o ddarparu darpariaeth hyfforddiant ôl-16.
- Ehangu ystod a hyblygrwydd cyfnodau dysgu byr a hyfforddiant DPP sydd ar gael i'r gweithlu lletygarwch, manwerthu a thwristiaeth drwy fentrau fel y rhaglen Cyfrif Dysgu Personol (CDP).
- Gweithio mewn partneriaeth â darparwyr hyfforddiant a rhaglenni cyflogadwyedd i hyrwyddo pwysigrwydd newydd-ddyfodiaid i'r sectorau lletygarwch, manwerthu a thwristiaeth yn y dyfodol sydd â'r 'sgiliau sylfaenol' ar gyfer diwydiannau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, ochr yn ochr â'r cymwysterau priodol.
- Archwilio dulliau arloesol o ddarparu hyfforddiant a chymwysterau i gwrdd â bylchau sgiliau a heriau recriwtio'r sectorau, megis academïau sgiliau a chynlluniau prentisiaethau a rennir.
- Parhau i fod yn ymwybodol o'r bylchau sgiliau ar gyfer cogyddion a therapyddion sba a harddwch a sicrhau bod y sectorau lletygarwch, manwerthu a thwristiaeth yn parhau i gael eu cydnabod fel cyfranwyr allweddol i economi sylfaenol Cymru.
- Sefydlu llwybrau mwy effeithiol rhwng diwydiant ac addysg bellach er mwyn symleiddio'r broses o bontio dysgwyr AB i'r sectorau lletygarwch, manwerthu a thwristiaeth, yn enwedig i mewn i brentisiaethau.
- Adeiladu ar y dulliau gweithredu effeithiol o ran addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd i fynd i'r afael â chanfyddiadau o'r sector a hyrwyddo'r sectorau lletygarwch, manwerthu a thwristiaeth fel dewisiadau gyrfa realistig.

## DIWEDDARIAD MIS TACHWEDD 2025

- Codi proffil prentisiaethau yn y sector lletygarwch, gan sicrhau bod fframweithiau coginio a gwasanaeth yn integreiddio sgiliau gwyrdd fel prosesau cyrchu cynaliadwy, lleihau gwastraff, effeithlonrwydd ynni, ac ymwybyddiaeth o ôl troed carbon i ddiwallu tueddiadau'r diwydiant yn y dyfodol.
- Gwella cyfleoedd profiad gwaith ar draws lletygarwch, manwerthu a thwristiaeth i bobl ifanc gyda ffocws ar arferion cynaliadwyedd - megis eco-dwristiaeth, gweithrediadau diwastraff, a manwerthu gwyrdd - gan helpu i leihau prinder sgiliau wrth ail-lunio canfyddiadau o yrfaoedd fel rhai sy'n amgylcheddol gyfrifol ac yn barod i'r dyfodol.
- Cynyddu'r defnydd o wybodaeth am y farchnad lafur i nodi bylchau sgiliau gwyrdd a thueddiadau recriwtio sy'n gysylltiedig ag arferion busnes cynaliadwy, defnyddio ynni adnewyddadwy a rheolaeth amgylcheddol ar draws sectorau lletygarwch, manwerthu a thwristiaeth, er mwyn llywio darpariaeth hyfforddiant ôl-16 yn well.
- Ehangu ystod a hyblygrwydd hyfforddiant dysgu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sy'n canolbwyntio ar sgiliau gwyrdd—megis rheoli cadwyn gyflenwi gynaliadwy, eco-ardystiadau ac arbed ynni—sydd ar gael i weithluoedd y sector trwy fentrau fel y rhaglen Cyfrif Dysgu Personol (CDP).
- Gweithio mewn partneriaeth â darparwyr hyfforddiant a rhaglenni cyflogadwyedd i hyrwyddo pwysigrwydd sgiliau sylfaenol ynghyd â chymwyseddau cynaliadwyedd ar gyfer ymgeiswyr yn y dyfodol ym maes lletygarwch, manwerthu a thwristiaeth, gan sicrhau eu bod wedi'u harfogi i gefnogi trawsnewidiadau gwyrdd busnesau ochr yn ochr ag arbenigedd traddodiadol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.
- Archwilio dulliau arloesol o ddarparu hyfforddiant i fynd i'r afael â bylchau sgiliau traddodiadol ac anghenion sgiliau gwyrdd sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys sefydlu academïau sgiliau sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd, prentisiaethau a rennir sy'n pwysleisio stiwardiaeth amgylcheddol, a chanolfannau eco-arloesi sector-benodol.
- Bod yn wyliadwrus i brinder sgiliau mewn rolau fel cogyddion a therapyddion sba a harddwch, gan integreiddio sgiliau gwyrdd fel defnyddio cynhwysion cynaliadwy, triniaethau ecogyfeillgar a thechnegau arbed ynni, gan atgyfnerthu cyfraniad y sector at economi sylfaenol Cymru wrth hyrwyddo cyfrifoldeb amgylcheddol.
- Sefydlu llwybrau cryfach sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd rhwng diwydiant ac addysg bellach i'w gwneud yn haws i ddysgwyr AB bontio i brentisiaethau lletygarwch, manwerthu a thwristiaeth gwyrdd-ganolog, gan gynnwys safonau cynaliadwyedd ac eco-ymarfer sydd wedi'u hymgorffori yn y cwricwlwm a lleoliadau gwaith.
- Adeiladu ar addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd effeithiol drwy fynd i'r afael â chanfyddiadau'r sector drwy dynnu sylw at lwybrau gyrfa gwyrdd, hyrwyddo'r sectorau lletygarwch, manwerthu a thwristiaeth fel rhai sydd nid yn unig yn hyfyw, ond yn hanfodol ar gyfer dyfodol economaidd cynaliadwy Cymru.